SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME COMMISSIONER** NORTH WALES

Cylchlythyr #5 SCHTh Gogledd Cymru – 30 Medi 2022
OPCC North Wales Newsletter #5 – 30 September 2022

Panel Heddlu a Throsedd yn cadarnhau Amanda Blakeman fel Prif Gwnstabl

Mewn cyfarfod ar 26 Medi o Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn adeilad Bodlondeb Cyngor Bwrdeistref Sir Conwy, cadarnhaodd aelodau mai Amanda Blakeman ydy Prif Gwnstabl newydd y rhanbarth. Ms Blakeman ydy'r Prif Gwnstabl benywaidd cyntaf yn hanes Heddlu Gogledd Cymru. Mae'n ymuno o Heddlu Gwent, lle roedd yn Ddirprwy Brif Gwnstabl.

Ymunodd Amanda Blakeman â Heddlu Gorllewin Mercia yn 1992 a thrwy gydol ei gyrfa, mae wedi cael sawl swydd. Treuliodd 11 mlynedd cyntaf ei gwasanaeth yn magu profiad a gwybodaeth amhrisiadwy ledled amrywiol rolau fel cwnstabl heddlu. Yn 2003 cafodd ei dyrchafu i fod yn rhingyll. Ers hynny, ledled sawl rheng, mae wedi arwain wrth gyflwyno gwasanaethau hanfodol i gymunedau. **Darllenwch fwy yma.**

Police and Crime Panel confirm Amanda Blakeman as Chief Constable

At a meeting on September 26 of the North Wales Police and Crime Panel at Conwy County Borough Council's Bodlondeb building, the members confirmed Amanda Blakeman as the region's new Chief Constable. Ms Blakeman is the first female Chief Constable in the history of North Wales Police and joins from Gwent Police, where she was Deputy Chief Constable.

Amanda Blakeman joined West Mercia Police in 1992 and throughout her career has held various posts. She spent the first 11 years of her service gaining an invaluable amount of experience and knowledge across a variety of roles as a police constable. In 2003 she was promoted to sergeant and, since then, across a number of ranks, has led teams in delivering critical services to communities. **Read more here.**

Arloesi i Dyfu: Y prosiectau cyntaf i elwa o gynllun newydd

Cyhoeddwyd y ddau sefydliad llwyddiannus cyntaf i dderbyn cyllid drwy gynllun newydd gan Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru Andy Dunbobbin i helpu i fynd i'r afael â throseddu ar 27 Medi.

Gwnaeth RASASC NW (Canolfan Cefnogaeth Trais a Cham-drin Rhywiol), a sefydliad i bobl ifanc Youth Shedz, gais am arian o'r gronfa Arloesi i Dyfu a ddatgelwyd gan CHTh ym mis Ebrill 2022 i dargedu a buddsoddi mewn prosiectau yn delio ag achosion troseddau ar draws Gogledd Cymru, yn enwedig rhai sy'n cynnig syniadau newydd a dyfeisgar o atal drwg weithredu. **Darllenwch fwy yma.**

Innovate to Grow: First projects benefit from new scheme

The first two successful organisations to receive funding via a new scheme from North Wales Police and Crime Commissioner Andy Dunbobbin to help tackle crime were announced on 27 September.

RASASC NW (Rape and Sexual Abuse Support Centre North Wales), and young people's organisation, Youth Shedz, applied for funding from the Innovate to Grow initiative, which was unveiled by the PCC in April 2022 to target and invest in projects dealing with the root causes of crime across North Wales – especially ones that offer new and innovative ideas of preventing and tackling wrongdoing. **Read more here.**

Ymgyrch yn cael ei lansio i gefnogi dioddefwyr cam-drin rhywiol yng Ngogledd Cymru

Aeth cydweithwyr o Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, gan gynnwys y Dirprwy Gomisiynydd Wayne Jones, i lansiad ymgyrch fawr er mwyn cynorthwyo dioddefwyr a goroeswyr cam-drin rhywiol yng Ngogledd Cymru a aeth yn fyw ar 26 Medi 2022.

Mae'r ymgyrch gan Ganolfan Cymorth Trais a Cham-drin Rhywiol Gogledd Cymru (RASASC NW), sy'n un o wasanaethau a gomisiynir gan SCHTh, yn annog mwy o ddioddefwyr/goroeswyr i gysylltu â nhw am help, cefnogaeth ac i roi trefn ar eu bywydau. **Darllenwch fwy yma.**

Campaign launches to support sexual abuse victims in North Wales

Colleagues from the Office of the Police and Crime Commissioner for North Wales, including Deputy Commissioner Wayne Jones, attended the launch event for a major campaign to help victims and survivors of sexual abuse in North Wales that went live on 26 September 2022.

The campaign by the Rape and Sexual Abuse Support Centre North Wales (RASASC NW), which is one of the OPCC's commissioned services, urges more victims/survivors to get in touch with them for help, support and to get their lives back on track. **Read more here.**

DIGWYDDIAD: Edrych ar y Rhwystrau i Riportio Troseddau Casineb

Dydd Iau 11 Hydref 2022, 16:00 – 17:00 BST | Lleoliad**: Ar-lein [trwy 'Zoom']**

Mae Andy Dunbobbin; Heddlu Gogledd Cymru; Canolfan Gefnogi Casineb Cymru Cymorth Dioddefwyr; a Thimau Cydlynu Cymunedau Gogledd Cymru yn mynd i ddod at ei gilydd i gynnal cyflwyniad a thrafodaeth er mwyn archwilio'r rhwystrau rhag riportio troseddau casineb o fewn cymunedau yng Ngogledd Cymru.

Bydd y sesiwn awr o hyd yn rhannu syniadau gan wasanaethau yn gweithio yn uniongyrchol gyda dioddefwyr a bydd yn edrych ar beth y gellir ei wneud o fewn cymunedau a gan ddarparwyr gwasanaethau er mwyn galluogi'r gefnogaeth orau i ddioddefwyr ac annog riportio. **Dysgwch fwy a chofrestrwch ar gyfer y digwyddiad yma.**

EVENT: Exploring the Barriers to Reporting Hate Crime

Tuesday, 11 October 2022, 16:00 – 17:00 | Location: **Online [via Zoom]**

Andy Dunbobbin, North Wales Police; the Wales Hate Support Centre at Victim Support; and the North Wales Community Cohesion Teams are coming together to host an online presentation and discussion to explore the barriers to reporting hate crime within the communities of North Wales.

This hour-long session will share insight from services working directly with victims and will look at what can be done within communities and by service providers to enable the best support to victims and encourage reporting. **Learn more and register for the event here.**

Rhybudd Cymunedol

Cofrestrwch yma ar gyfer Rhybudd Cymunedol Gogledd Cymru i dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf am droseddau, digwyddiadau, apeliadau, cyngor atal trosedd a gweithgareddau plismona cyffredinol yn eich ardal. Mae cofrestru yn rhad ac am ddim ac yn gyflym a syml.

Community Alert

Register here for North Wales Community Alert to receive up to date information about crime, engagement events, appeals, prevention advice and general policing activity in your local area. Registration is completely free, quick and simple.

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU | **OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES**

Rydych chi'n derbyn yr e-bost hwn oherwydd eich bod wedi cofrestru i dderbyn ein e-byst cylchlythyrau.
You are receiving this email as you signed up to receive our newsletter updates.

Eisiau newid sut rydych chi'n derbyn yr e-byst hyn?
Cysylltwch â ni drwy socialmedia@northwales.police.uk i ddiweddaru eich dewisiadau neu ddad-danysgrifio o'r rhestr hon.

Want to change how you receive these emails?
Contact us via socialmedia@northwales.police.uk to update your preferences or unsubscribe from this list.

Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
Pencadlys yr Heddlu
Glan y Don
Bae Colwyn
Conwy LL29 8AW

Office of the Police and Crime Commissioner
North Wales
Police Headquarters
Glan y Don
Colwyn Bay
Conwy LL29 8AW

Gallwch ddarllen ein polisi preifatrwydd yma:
https://www.northwales-pcc.gov.uk/cy/polisi-preifatrwydd

You can read our privacy policy here:
https://www.northwales-pcc.gov.uk/privacy-policy